# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 16 Chwefror 2005

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Denise Idris Jones (Conwy):** Pa gyllideb y mae'r Gweinidog yn ei rhyddhau ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru yn 2004/2005 a 2005/2006. (WAQ41547)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyrraedd y targed ar gyfer ynni adnewyddadwy yng Nghymru. (WAQ41542)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A fyddech cystal â rhestru'r gorsafoedd rheilffyrdd yng Nghymru sydd wedi'u haddasu i gydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. (WAQ41548)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pa orsafoedd rheilffyrdd y bwriedir eu haddasu i gydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn ystod 2005-06 a 2006-07. (WAQ41549)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o ysgolion yng Nghymru sydd heb bwll nofio o fewn 5 milltir iddynt. (WAQ41536)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o ysgolion yng Nghymru sydd wedi cau dros y flwyddyn ddiwethaf, a sut mae hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol er 1996. (WAQ41537)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o ddisgyblion ysgol yng Nghymru sy'n teithio ar y bws ar hyn o bryd, a faint o'r teithiau hyn sy'n fwy na 3 milltir. (WAQ41538)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o athrawon newydd sydd wedi'u recriwtio yng Nghymru bob blwyddyn er 1996. (WAQ41539)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o athrawon yng Nghymru y mae'n hysbys eu bod wedi gadael y proffesiwn o fewn y flwyddyn flaenorol, a sut mae'r

ffigurau hyn yn cymharu â phob blwyddyn flaenorol er 1996. (WAQ41540)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad wnaeth y Gweinidog o effaith y cynnydd yn sgil yr ailfandio ar yr arian sy'n mynd i'r cwmnïau dwr. (WAQ41541)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw canran y cynnydd y gall cwmnïau dwr ei ddisgwyl yn eu hincwm o ganlyniad yn unig i'r ailfandio yng Nghymru. (WAQ41544)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw canran y cynnydd y gall cynghorau lleol ei ddisgwyl yn eu hincwm o ganlyniad yn unig i'r ailfandio yng Nghymru. (WAQ41545)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pam y cafodd yr ymarfer ailfandio ei dreialu yng Nghymru gyntaf. (WAQ41546)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y bobl sy'n cael eu gweld mewn adrannau damweiniau ac achosion brys mewn ysbytai yn Nwyrain De Cymru. (WAQ41522)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o lefydd sydd wedi bod ar gael yng Nghymru bob blwyddyn er 1998 i adsefydlu pobl sydd ar gyffuriau, a faint o'r rhain sydd wedi'u darparu ar gyfer cleifion mewnol. (WAQ41525)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth oedd yr amser aros cyfartalog i glaf gael ei atgyfeirio at wasanaethau seiciatrig yng Nghymru y llynedd, a beth oedd yr amser aros hiraf am gymorth seiciatrig. (WAQ41527)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl achos o MRSA sydd wedi bod yn farwol yng Nghymru bob blwyddyn er 1996. (WAQ41528)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl achos o heintiadau yn sgîl gofal iechyd sydd wedi'u hadrodd mewn cartrefi gofal yng Nghymru bob blwyddyn er 1996. (WAQ41529)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl cwyn sydd wedi'i gwneud ynghylch glanweithdra ysbytai yng Nghymru. (WAQ41530)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl cwyn sydd wedi'i gwneud

ynghylch gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau arferol. (WAQ41531)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl deintydd sydd yng Nghymru ar hyn o bryd am bob 100,000 o'r boblogaeth, a beth oedd y ffigwr am bob blwyddyn er 1996. (WAQ41532)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl deintydd newydd sydd wedi dechrau gweithio yng Nghymru bob blwyddyn er 1996. (WAQ41533)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl a) nyrs a b) meddyg teulu oedd yn gweithio yng Nghymru y gwyddys eu bod wedi gadael y proffesiwn ers mis Ionawr 2004, a sut y mae'r ffigyrau hyn yn cymharu â phob blwyddyn arall er 1996. (WAQ41534)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa reoliadau sydd mewn grym i rwystro ysbytai rhag gohirio apwyntiadau cleifion drosodd a throsodd. (WAQ41535)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'i chyd-Weinidogion yn San Steffan ynghylch cadw enwau hanesyddol ein catrodau Cymreig yn y fyddin. (WAQ41521)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru. (WAQ41523)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i helpu cymunedau lleol i fynd i'r afael â throsedd. (WAQ41524)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o bobl sydd wedi derbyn triniaeth gofrestredig am gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru bob blwyddyn er 1998. (WAQ41526)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r rhestrau aros am dai cymdeithasol yng Nghymru, fesul awdurdod lleol. (WAQ41543)